Hawdd ei Ddeall

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# Cymru Gyfartal 2020 – 2024

## Ein cynllun ni ar gyfer gwneud Cymru yn lle tecach i fyw a gweithio ynddi hi.



Cafodd y ddogfen hon ei hysgrifennu gan **Lywodraeth Cymru**. Mae'n fersiwn hawdd ei ddeall o '**Gynllun Cydraddoldeb Strategol 2020-2024 Nodau, Amcanion a Gweithredoedd Cydraddoldeb'.**

**Mawrth 2020**

# Sut i ddefnyddio'r ddogfen hon

Fersiwn hawdd ei ddeall yw hwn. Mae'r geiriau a'r hyn maen nhw'n feddwl yn hawdd i'w darllen a'u deall.



Efallai y bydd arnoch chi angen cefnogaeth i ddarllen a deall y ddogfen hon. Gofynnwch i rywun rydych chi'n ei adnabod i'ch helpu.



Efallai y bydd geiriau mewn **ysgrifennu glas trwm** yn anodd i'w deall. Mae'n dweud beth maen nhw'n feddwl mewn bocs o dan y gair.




Os bydd y gair anodd yn cael ei ddefnyddio eto bydd e mewn ysgrifennu glas cyffredin. Gallwch chi edrych ar beth mae'r geiriau mewn glas yn meddwl ar **dudalen 22**.

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Pan fydd y ddogfen yn dweud **ni**, mae hyn yn meddwl **Llywodraeth Cymru**. Am fwy o wybodaeth cysylltwch â:



**Gwefan:**
[llyw.cymru/cynllun-nodau-cydraddoldeb-2020-i-2024](llyw.cymru/cynllun-nodau-cydraddoldeb-2020-i-2024)

**E-bost:**
[AmcanionCynllunCydraddoldebStrategol2020@llyw.cymru](mailto:AmcanionCynllunCydraddoldebStrategol2020@llyw.cymru)

Hawdd ei Ddeall Cymru
Easy Read Wales

Cafodd y ddogfen hon ei gwneud yn hawdd ei deall gan **Hawdd ei Ddeall Cymru** gan ddefnyddio **Photosymbols.**

# Cynnwys

**Tudalen**


**Sut i ddefnyddio'r ddogfen hon........2**

**Neges gan y Dirprwy Weinidog Jane Hutt........4**

**Ynglŷn â'r cynllun hwn........6**

Deddfau pwysig........7

Y pethau rydyn ni wedi'u dysgu am gydraddoldeb........7

Y pethau ddywedodd pobl........8

**Ein hamcanion........10**

1. Rhoi diwedd ar anghydraddoldeb sy'n cael ei achosi gan dlodi........10
2. Amddiffyn hawliau dynol yng Nghymru........12
3. Cael gwasanaethau cyhoeddus i feddwl mwy am anghenion a hawliau gwahanol bobl........13
4. Gwneud yn siŵr bod Cymru'n lle ble mae pobl yn cael eu trin yn gyfartal beth bynnag yw eu rhyw........15
5. Rhwystro pobl rhag cael eu trin yn wael ac yn annheg........16
6. Cymunedau cryfach a thecach........18
7. Pawb yng Nghymru i gael y cyfle i gymryd rhan........19
8. Cyrff cyhoeddus i osod esiampl dda ar gyfer rhoi gwaith i bobl o wahanol gefndiroedd........20

**Geiriau anodd........22**

# Neges gan y Dirprwy Weinidog Jane Hutt



Mae gwneud yn siŵr bod pawb yn cael eu trin yn gyfartal ac yn deg yng Nghymru yn bwysig iawn i ni.




Mae gwneud yn siŵr bod **hawliau dynol** pawb yn cael eu cwrdd hefyd yn bwysig iawn.



Mae **hawliau dynol** yn hawliau sydd gan bob person. Er enghraifft yr hawl i fod yn fyw a'r hawl i gael addysg.



Mae'n amser pwysig iawn i fod yn meddwl am y pethau hyn, oherwydd bod cymaint o wahaniaethau mewn cymdeithas.




Mae gennym ni lawer o ddeddfau pwysig i'n helpu ni i wneud yn siŵr bod pobl yn cael eu trin yn gyfartal ac yn deg. Mae'n rhaid i ni eu defnyddio nhw.



Pan fydd grwpiau o bobl yn cael eu trin yn wahanol neu'n annheg gall effeithio ar lawer o wahanol bethau eraill yn eu bywydau nhw.




Weithiau nid yw pobl yn cael eu trin yn gyfartal os ydyn nhw'n dlawd. Rydyn ni'n gwneud llawer o waith i newid hyn.




Mae'r ddogfen hon yn siarad am y gwaith y byddwn ni'n ei wneud dros y pedair blynedd nesaf ar gyfer cydraddoldeb.





**Jane Hutt**

**Dirprwy Weinidog a Phrif Chwip**

# Ynglŷn â'r cynllun hwn



Mae'r cynllun hwn ynglŷn â'n hamcanion ni ar gyfer cydraddoldeb dros y pedair blynedd nesaf.




Rydyn ni wedi ysgrifennu wyth amcan fydd yn ein helpu ni i wneud Cymru yn lle tecach i fyw a gweithio ynddi hi. I'n helpu ni i ysgrifennu'r amcanion hyn:



- Fe wnaethon ni waith i'n helpu ni i ddysgu mwy am y math o gydraddoldeb sydd gennym ni yng Nghymru.



- Fe ofynnon ni i bobl beth roedden nhw'n ei feddwl am ein syniadau ni ar gyfer y cynllun hwn, a sut fath o beth yw bywyd iddyn nhw.



- Fe wnaethon ni feddwl am ddeddfau pwysig.



Rydyn ni wedi ysgrifennu beth y byddwn ni'n ei wneud i'n helpu ni i gyflawni pob amcan yn y cynllun hwn.

# Deddfau pwysig




**Deddf Cydraddoldeb 2010**

Mae'r ddeddf hon yn ein helpu ni i wneud yn siŵr bod pawb yn cael yr un cyfleoedd mewn bywyd.



**Deddf Lles Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015**

Mae'r ddeddf hon yn helpu i wneud yn siŵr ein bod ni'n meddwl am les y bobl sy'n byw yng Nghymru yn awr ac yn y dyfodol.

# Y pethau rydyn ni wedi'i dysgu am gydraddoldeb



Mae arnon ni angen edrych ar beth fydd effeithiau y cynllun hwn a thybed a fydd e'n gwneud gwahaniaeth.



I'n helpu ni i ddeall y gwahaniaeth y bydd y cynllun hwn yn ei wneud, rydyn ni wedi dysgu llawer am gydraddoldeb. Er enghraifft:



- Mae menywod yn aml yn cael profiad o anghydraddoldeb.




- Mae pobl anabl wedi cael eu heffeithio yn fwy na phobl eraill gan newidiadau i'r system fudd-daliadau lles a thoriadau i wasanaethau cyhoeddus.



- Mae llawer o bobl hŷn tlawd yng Nghymru. Mae hyn yn effeithio ar lawer o bethau eraill fel eu bywyd nhw a pha mor hir maen nhw'n byw.

## Y pethau ddywedodd pobl



I wneud y cynllun hwn fe siaradon ni â phobl a mudiadau ar draws Cymru. Y prif bethau ddywedodd pobl oedd:




- Na wnaethon ni siarad digon am hawliau dynol yn ein cynllun olaf ni ar gyfer cydraddoldeb.



- Mae angen mwy o help ar gyfer gwneud gwasanaethau fel cludiant yn fwy **hygyrch**.

> Mae **hygyrch** yn meddwl bod rhywbeth yn gallu cael ei ddefnyddio'n hawdd gan bawb.



- Fe ddylen ni ganolbwyntio mwy ar lefel y **tlodi** yng Nghymru. A sut y mae hyn yn effeithio ar gydraddoldeb pobl.




Mae **tlodi** yn bod pan na fydd gan bobl ddigon o arian i dalu am bethau fel biliau, bwyd a gwres. A ddim yn gallu cael gwasanaethau cyhoeddus ac addysg dda.



- Dylen ni edrych ar sut y mae gadael yr **Undeb Ewropeaidd** yn debygol o effeithio ar hawliau dynol.



- Dylen ni wneud mwy i wneud yn siŵr bod gwahanol grwpiau o bobl yn cael eu cynrychioli mewn **cyrff cyhoeddus**.




Mae **cyrff cyhoeddus** yn sefydliadau sy'n cael arian gan Lywodraeth Cymru i redeg gwasanaethau ar gyfer pobl yng Nghymru.

# Ein hamcanion ni

## 1. Rhoi diwedd ar anghydraddoldeb sy'n cael ei achosi gan dlodi



Byddwn ni'n ceisio rhwystro pobl rhag mynd i dlodi. A gwneud bywyd yn well i bobl sydd heb lawer o arian.

Byddwn ni'n:



- Cael cyrff cyhoeddus sydd wedi'u dewis i feddwl sut y mae eu penderfyniadau nhw'n effeithio ar bobl sy'n byw mewn tlodi.



- Rhoi mwy o gefnogaeth i bobl yng Nghymru sy'n ei chael hi'n anodd i gael gwaith.



- Rhedeg prosiectau i helpu gwahanol grwpiau o bobl i gychwyn busnesau.



- Gweithio gyda gwahanol grwpiau o bobl i wella cludiant.



- Rhoi mwy o gefnogaeth i bobl 16 i 24 blwydd oed sydd ddim mewn gwaith, addysg na hyfforddiant.



- Cefnogi **cymdeithasau tai** i wella cartrefi. Mae **cymdeithasau tai** yn rhentu cartrefi i bobl sydd heb lawer o arian.



- Cefnogi'r gwaith sy'n cael ei wneud i wneud tai'n fwy cynnes.



- Darparu llawer o dai newydd yng Nghymru y gall pobl eu fforddio nhw.

## 2. Amddiffyn hawliau dynol yng Nghymru



Byddwn ni'n gwneud yn siŵr ein bod ni'n amddiffyn cydraddoldeb a hawliau dynol yng Nghymru.

Byddwn ni'n:



- Gwneud ymchwil erbyn diwedd 2020 i weld sut i amddiffyn cydraddoldeb a hawliau dynol yng Nghymru.




- Gweld pa mor dda mae ein rheolau ni ar gyfer cydraddoldeb yn gweithio a gweld a allan nhw gael eu gwneud yn well.



- Edrych a yw cyrff cyhoeddus yn casglu gwybodaeth dda ynghylch cydraddoldeb.




- Ysgrifennu rheolau sy'n helpu darparwyr i ddilyn deddf newydd **Anghenion Dysgu Ychwanegol**.



- Gwneud yn siŵr bod digon o gyngor a chefnogaeth mewn ysgolion ar gyfer plant sydd eu hangen nhw.



- Cael mwy o bobl sydd ag anghenion dysgu ychwanegol i gael archwiliad iechyd blynyddol.

## 3. Cael gwasanaethau cyhoeddus i feddwl mwy am anghenion a hawliau gwahanol bobl




Byddwn ni'n gweithio mewn ffordd sy'n helpu pawb i gyflawni'r pethau maen nhw'n dymuno eu gwneud mewn bywyd. Byddwn ni'n:



- Gwella cludiant cyhoeddus ar gyfer pobl sydd â gwahanol anghenion. Er enghraifft, trwy ddefnyddio fideo a recordiadau llais wrth arosfannau bws. A rhoi hyfforddiant cydraddoldeb a hawliau dynol i staff cludiant cyhoeddus.



- Byddwn ni'n gwneud yn siŵr bod ein cynlluniau a'n polisïau ni yn meddwl am anghenion pob grŵp gwahanol o bobl.




- Byddwn ni'n gwneud cludiant cyhoeddus yn fwy diogel ac yn fwy hygyrch ar gyfer pob grŵp o bobl. Yn enwedig pobl anabl. Byddwn ni'n gweithio ar hyn gyda gwahanol grwpiau o bobl.



- Byddwn ni'n cefnogi prosiectau cartrefu a chefnogaeth ar gyfer pobl ifainc **LGBTQ+**.

> Mae **LGBTQ+** yn sefyll am Lesbiaidd, Hoyw, Deurywiol, Trawsrywiol, Pobl sy'n Cwestiynu eu rhywioldeb nhw a'r bobl eraill i gyd sy'n uniaethu fel rhan o'r gymuned hon.



- Gwneud hyfforddiant ar-lein i landlordiaid ynghylch cydraddoldeb trwy **Rentu Doeth Cymru.** Bydd hyn yn cynnwys hyfforddiant iechyd meddwl.




- Rhoi ein cynllun ni sy'n cael ei alw'n **'Cymru o blaid pobl hŷn'** ar waith er mwyn gwneud Cymru'n lle da i fynd yn hŷn.



- Ei gwneud hi'n haws i bobl ymweld â lleoedd arbennig, fel cestyll ac eglwysi yng Nghymru. Ac i ddod ar wyliau i Gymru.



- Cefnogi mwy o bobl anabl i ddefnyddio **prentisiaethau**.

Mae **prentisiaethau** yn ffordd o ddysgu am waith a chael hyfforddiant yr un pryd.



- Darparu mwy o gefnogaeth i bobl ddefnyddio cyfrifiaduron a'r we.

## 4. Gwneud yn siŵr bod Cymru'n lle ble mae pobl yn cael eu trin yn gyfartal beth bynnag yw eu rhyw nhw



Byddwn yn cyflwyno rhannau cyntaf ein cynllun ni ar gyfer cydraddoldeb pob rhyw, sy'n cael ei alw'n **Gynllun Gweithredu Cydraddoldeb Rhywiol.** A gweithio i wneud yn siŵr bod pobl yn cael eu talu'n gyfartal beth bynnag yw eu rhyw nhw.



Byddwn ni'n edrych ar ein gwaith ni ar hyn. Ac yn ceisio dysgu mwy am y ffordd y mae pobl yn cael eu trin yn wahanol oherwydd eu rhyw nhw.

# 5. Rhwystro pobl rhag cael eu trin yn wael ac yn annheg




Weithiau mae pobl yn cael profiad o bethau fel bwlio a cham-drin oherwydd pwy ydyn nhw. Er enghraifft oherwydd eu bod nhw'n anabl, neu'n hen, neu'n hoyw.

Byddwn ni'n gweithio i rwystro hyn rhag digwydd. Byddwn ni'n:



- Talu am y **Ganolfan Genedlaethol Hysbysu am Droseddau Casineb a Chefnogaeth**. Bydd hwn yn rhoi cyngor a chefnogaeth i ddioddefwyr **trosedd casineb**.



**Trosedd casineb** yw cael eich bwlio, cael pobl yn galw enwau arnoch chi neu'n ymosod arnoch chi am eu bod nhw'n meddwl eich bod chi'n wahanol.




- Gweithio gyda mudiadau yng Nghymru i rwystro trosedd casineb.




- Helpu clybiau chwaraeon a grwpiau cymunedol gael cyngor ynghylch cadw pobl ifainc yn ddiogel.



- Talu am grwpiau a phrosiectau, a chodi ymwybyddiaeth i rwystro trosedd casineb.




- Ysgrifennu cynllun newydd ar gyfer **trais tuag at fenywod** a **thrais teuluol**.





Mae **trais yn erbyn menywod** yn fath o ymddygiad sy'n niweidio menywod a merched. Mae'n cynnwys:

- aflonyddu rhywiol
- treisio
- priodas dan orfod

Mae **trais teuluol** yn ymddygiad sy'n achosi niwed i rywun. Partner neu gyn-bartner neu aelod o'r teulu sy'n gwneud hyn. Gall ddigwydd i unrhyw un.



- Parhau i gefnogi ysgolion i roi diwedd ar fwlio a gwneud ysgolion yn fwy diogel.



- Edrych ar ffyrdd o rwystro pobl sydd â phroblemau iechyd meddwl rhag cael eu trin yn annheg pan fyddan nhw'n ceisio cael rhentu tŷ.

## 6. Cymunedau cryfach a thecach



Byddwn ni'n dal ati i weithio i wneud yn siŵr bod pobl yn byw yn hapus gyda'i gilydd yn eu cymunedau nhw.

Byddwn ni'n:



- Gwneud yn siŵr bod pob disgybl ysgol yn dysgu am berthynas, rhyw ac addysg grefyddol. Byddwn ni'n siarad â phobl o wahanol grefyddau a chefndiroedd i gael eu barn nhw.



- Talu i fudiad i gael barn pobl sy'n rhentu tai preifat ac sydd â phroblemau iechyd meddwl.




- Ysgrifennu rhestr o werthoedd pwysig i helpu i wneud cymunedau'n gryfach ac yn hapusach.

# 7. Pawb yng Nghymru'n cael cyfle i gymryd rhan



Bydd mwy o gyfle i bobl o wahanol gefndiroedd gael dweud eu barn nhw am bethau fel gwleidyddiaeth yng Nghymru.

Byddwn ni'n:



- Gwneud yn siŵr bod pobl ar fyrddau'r cyrff cyhoeddus yn deall y materion sy'n codi ynghylch cydraddoldeb.



- Cefnogi mwy o bobl i gymryd rhan mewn gwleidyddiaeth leol, a dod yn gynghorydd ar eu cyngor lleol nhw.



- Rhoi arian i gefnogi pobl anabl i sefyll mewn etholiad mewn llywodraeth leol.

## 8. Cyrff cyhoeddus i osod esiampl dda ar gyfer cyflogi pobl o wahanol gefndiroedd.



Mae arnon ni eisiau gosod esiampl dda trwy gyflogi llawer o wahanol fathau o bobl o wahanol gefndiroedd ac sydd â gwahanol gredoau.

Byddwn ni'n:



- Rhoi gwyliau gyda thâl i'n staff ni sy'n cael profiad o drais teuluol.



- Rhoi mwy o hyfforddiant i'n staff ni ynghylch trais teuluol.



- Rhoi mwy o gefnogaeth i staff ac ymwelwyr i fwydo o’r fron mewn adeiladau Llywodraeth Cymru.



- Dewis hyrwyddwyr iechyd meddwl yn y gweithle i roi cefnogaeth i’n staff ni.

# Geiriau anodd

## Cyrff cyhoeddus

Mae cyrff cyhoeddus yn sefydliadau sy'n cael arian gan Lywodraeth Cymru i redeg gwasanaethau ar gyfer pobl yng Nghymru.

## Hawliau dynol

Mae hawliau dynol yn hawliau sydd gan bob person. Er enghraifft yr hawl i fod yn fyw a'r hawl i gael addysg.

## Hygyrch

Mae hygyrch yn meddwl bod rhywbeth yn gallu cael ei ddefnyddio'n hawdd gan bawb.

## LGBTQ+

Mae LGBTQ+ yn sefyll am Lesbiaidd, Hoyw, Deurywiol, Trawsrywiol, Pobl sy'n Cwestiynu eu rhywioldeb nhw a'r bobl eraill i gyd sy'n uniaethu fel rhan o'r gymuned hon.

## Prentisiaethau

Mae prentisiaethau yn ffordd o ddysgu am waith a chael hyfforddiant yr un pryd.

## Tlodi

Mae tlodi yn bod pan na fydd gan bobl ddigon o arian i dalu am bethau fel biliau, bwyd a gwres. A ddim yn gallu cael gwasanaethau ac addysg dda.

## Trais yn erbyn menywod a thrais teuluol

Mae trais yn erbyn menywod yn fath o ymddygiad sy'n niweidio menywod a merched. Mae'n cynnwys:

- aflonyddu rhywiol
- treisio
- priodas dan orfod.

Mae trais teuluol yn ymddygiad sy'n achosi niwed i rywun. Partner neu gyn-bartner neu aelod o'r teulu sy'n gwneud hyn. Gall ddigwydd i unrhyw un.

## Trosedd Casineb

Trosedd casineb yw cael eich bwlio, cael pobl yn galw enwau arnoch chi neu'n ymosod arnoch chi am eu bod nhw'n meddwl eich bod chi'n wahanol.